## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r nawfed Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ("y Ddeddf"), sy'n dwyn i rym ddarpariaethau penodedig yn y Ddeddf o ran Cymru.

Mae erthygl 2 yn darparu mai 1 Rhagfyr 2017 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau o'r Ddeddf a restrir isod ddod i rym o ran Cymru—

(a) adran 8(2) ac Atodlen 1 i'r graddau y maent yn ymwneud â pharagraff 19 o'r Atodlen honno;

(b) adran 10(2);

(c) adran 42 ac Atodlen 4 (diddymiadau) i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu fel y'i pennir yn yr Atodlen honno ddarpariaethau yn—

 (i) adrannau 59 a 105(1) o Ddeddf Plant 1989,

 (ii) adran 806(5) o Ddeddf Treth Incwm (Incwm Masnachu ac Incwm Arall) 2005,

 (iii) adran 18(8)(a) o Ddeddf Gofal Plant 2006.

Mae paragraff 19 o Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau i ystyr "childcare" yn adran 18(8)(a) o Ddeddf Gofal Plant 2006.

Mae adran 10(2) yn mewnosod adran 25C yn Neddf Plant 1989, sy'n cynnwys pŵer i wneud rheoliadau er mwyn i'r Arglwydd Ganghellor estyn swyddogaethau statudol Swyddogion Adolygu Annibynnol (sydd â swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 1989 mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol).